## Cynllun Strategol Gwaith Consortiwm Medi 2009 – Awst 2010

### Cyflwyniad
Mae'r ddogfen hon yn nodi'r gwaith a gaiff ei gyflawni drwy waith consortiwm yn ystod 2009-2010 fel modd o gyflawni'r canlyniad trosgynnol o safonau gwell i ddisgyblion.

Bydd y camau gweithredu a amlinellwyd yn y cynllun yn cael eu cyflawni drwy waith consortiwm oherwydd ein bod yn cydnabod nad oes un ffordd o gydweithio sy'n gwbl addas i bob sefyllfa, a bod y continwwm yn darparu hyblygrwydd i sicrhau gwaith effeithiol ac effeithlon sy'n ychwanegu gwerth at waith pob awdurdod. Rydym yn diffinio gwaith consortiwm fel sefyllfa lle mae rhai gwasanaethau, neu'r gwasanaethau i gyd yn dod at ei gilydd mewn amrywiaeth o ffyrdd a lle mae pob awdurdod yn y consortiwm yn cadw cyfrifoldeb am gyflwyniad a safonau statudol y gwasanaeth. Mae gwaith y consortiwm wedi'i bennu a'i gefnogi gan y chwe awdurdod.

**Egwyddorion Gwaith Consortiwm**
- Mae gwaith y consortiwm wedi'i bennu **gan y chwe awdurdod**
- Trefniant gweithio ar y cyd **yw gwaith consortiwm.** Gall gweithio ar y cyd **ddigwydd ar sawl ffurf** - o rwydweithio i integreiddio gwasanaethau'n llawn ac mae'n ceisio ychwanegu gwerth at waith pob awdurdod unigol
- Ceir **cyfrifoldebau ac atebolrwydd clir**, sy'n un o gryfderau model gweithio'r consortiwm
- Mae pob awdurdod **yn cadw ei gyfrifoldebau** dros gyflwyno statudol a safonau gwasanaeth

**Gwaith consortiwm effeithiol**
Mae gwaith consortiwm effeithiol yn dibynnu ar ymddiriedaeth broffesiynol a deialog rhwng pawb sy'n cymryd rhan.
Egwyddorion ymddiriedaeth a deialog yw:-

### Ymddiriedaeth
**Parch**
Ydyn ni'n cydnabod urddas a syniadau ein gilydd?
Ydyn ni'n rhyngweithio mewn ffordd gwrtais?
**Gallu/galluedd**
Ydyn ni'n credu yng ngallu a pharodrwydd ein gilydd i gyflawni ein cyfrifoldebau'n effeithiol?
**Parch personol**
Ydyn ni'n ystyriol o'n gilydd yn broffesiynol ac yn bersonol?
Ydyn ni'n fodlon mynd y tu hwnt i'n rolau a'n cyfrifoldebau ffurfiol er mwyn mynd y filltir ychwanegol?
**Unplygrwydd**
Ydyn ni'n gallu ymddiried yn ein gilydd i roi budd disgyblion/myfyrwyr yn gyntaf pan fydd rhaid gwneud penderfyniadau anodd?
Ydyn ni'n cadw ein gair?

### Deialog
1. Ymarfer pŵer gyda, nid pŵer dros
2. Yn ystyried y cwestiynau yn ogystal ag atebion
3. Bod yn fodlon ar amwysedd, ansicrwydd, ddim yn gwybod
4. Yn ofalus am ddysgu eraill fel yr ydym yn ofalus am ein dysgu ein hunain
5. Ymroi i wrando i'r un graddau â siarad
6. Gweld gwerth y broses o fod yn dyst i feddyliau a theimladau pobl eraill i'r un graddau â gwerthfawrogi
7. Cyfle i unigolion hunanfyfyrio
8. Bod yn agored i gael ein newid drwy sgwrsio

**Continwwm gwaith consortiwm**
Cyfeirir gwaith consortiwm gan fodel sy'n cynnwys sawl ffurf ar weithio gyda'n gilydd, o rwydweithio i integreiddio llwyr sy'n bodloni

| | | | |
|---|---|---|---|
| Canlyniadau Positif i Blant a Phobl Ifanc | ← | Integreiddio Llwyr | Dyma ble mae gwaith consortiwm yn cyflwyno gwasanaeth ar y cyd ar draws yr awdurdodau sy'n cyfranogi. Mae'r awdurdodau'n cronni cyllidebau ac adnoddau i ddarparu'r gwasanaeth |
| | ← | Cydweithredu | Dyma ble mae'r awdurdodau'n gweithio gyda'i gilydd ar fentrau penodol, rhannu adnoddau a rhannu cyfrifoldebau, risgiau a gwobrau |
| | ← | Cydweithredu | Dyma ble mae'r awdurdodau'n cydweithio i ddatrys problemau, dileu rhwystrau a chynnig atebion |
| | ← | Cydlynu | Dyma ble mae'r awdurdodau'n alinio polisïau a gweithdrefnau, ac yn datblygu ymagweddau cyson |
| | ← | Rhwydweithio | Dyma ble mae'r awdurdodau'n rhannu gwybodaeth, yn trafod ymagweddau ac yn nodi arfer gorau. Maent hefyd yn meithrin ymddiriedaeth a chysylltiadau proffesiynol cadarnhaol |

**Cynllun Strategol y Consortiwm 2009-10**

Mae pob awdurdod yn ymroddedig i ddatblygu gwaith consortiwm a fydd yn galluogi blaengaredd a mesurau effeithlonrwydd drwy rymuso staff ac awdurdodau i gydweithio ac i wneud pethau'n wahanol. Mae'r gwaith yn cwmpasu egwyddorion diwygio ar dair lefel, lle mae pawb dan sylw yn rhannu nod cyffredin, sef gwella canlyniadau i bobl ifanc.

**Blaenoriaethau gwaith consortiwm**

**1. Monitro, Herio ac Ymyrryd**
Datblygu proses fonitro, herio ac ymyrryd gyson gyda'r bwriad o hyrwyddo gwella ysgolion yn barhaus ar draws y consortiwm, gan barchu a chyfoethogi trefniadau lleol

**2. Arweinyddiaeth Systemau**
Galluogi newid systemau ynghyd â diwygio ar dair lefel ac sy'n ateb gofynion addysg yn yr 20fed ganrif

**3. Cefnogi i wella ysgolion**
Ehangu'r amrywiaeth o gefnogaeth a gwasanaethau cefnogi ehangach sydd ar gael i ysgolion ac awdurdodau lleol, i alluogi gweithlu ysgolion ac awdurdodau lleol i ddylanwadu'n well ar ddysgu a lles plant a phobl ifanc.

**4. Cyfeiriad Strategol a Llywodraethu**
Mae datblygu ymhellach y trefniadau llywodraethu a rheoli sy'n sicrhau bod gwaith consortiwm yn cynyddu galluedd awdurdodau lleol yn ychwanegu gwerth drwy waith effeithlon ac effeithiol, ac yn cyfrannu at ganlyniadau gwell i blant a phobl ifanc.

## 1. Monitro, Herio ac Ymyrryd

***Diben:***

**Datblygu egwyddorion fonitro, herio ac ymyrryd cyson gyda'r bwriad o hyrwyddo gwella ysgolion yn barhaus ar draws y consortiwm, gan barchu a chyfoethogi trefniadau lleol**

***Bydd y broses hon yn:***

1.1 Darparu gwybodaeth graidd gyffredin a chytunedig, gan gynnwys data sy'n ymwneud â pherfformiad ysgolion er mwyn helpu i lunio barnau cywir
1.2 Nodi'r arweiniad, yr egwyddorion a'r prosesau cyffredin i staff AALl ac ysgolion
1.3 Integreiddio arfer gorau a nodwyd mewn hunanwerthuso, a'r gwersi a ddysgwyd o raglen beilot FfEY
1.4 Sicrhau alinio â Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn
1.5 Sicrhau bod yr egwyddorion a'r prosesau cytunedig yn cael eu cymhwyso'n gyson (gan gynnwys amrywiadau ALl)
1.6 Darparu monitro effeithiol a her ar raddfa uchel
1.7 Sicrhau bod ysgolion sy'n achos pryder yn cael eu nodi'n gynnar
1.8 Sicrhau cysondeb wrth ddarparu ymyriad a chefnogaeth effeithiol
1.9 Hwyluso nodi arfer effeithiol mewn ALl ac ysgolion drwy ddeialog broffesiynol reolaidd
1.10 Arwain at ddylanwadu'n gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion
1.11 Arwain at ychwanegu gwerth at waith pob ALl a chyflawni effeithlonrwydd drwy waith cydweithredol

| Maes Gweithgaredd | Meini Prawf Llwyddiant | Lefel Continwwm Angenrheidiol | Cyfrifoldeb | Adnoddau | Sylwadau/Cwblhau |
|---|---|---|---|---|---|
| 1.1 Darparu gwybodaeth graidd gyffredin a chytunedig, gan gynnwys data sy'n ymwneud â pherfformiad ysgolion er mwyn helpu i lunio barnau cywir | 1.1.1 Gwybodaeth graidd gyffredin sy'n cynnwys setiau data cytunedig wedi'i chwblhau erbyn Chwefror 2010<br>. | Cydweithredu | Grŵp Tasg a Gorffen<br><br>*Arbenigedd ar gael ar hyn o bryd yn y canlynol:*<br>• Cynghori, Cefnogi a Herio<br>• Y Grŵp Data<br>• Penaethiaid | • Hwyluso<br>• Gweinyddu<br>• Data<br>• Costau cyflenwi | Ystyried setiau data cenedlaethol a lleol a dadansoddiad data swamwac |
| 1.2 Nodi'r arweiniad, yr egwyddorion a'r prosesau cyffredin i staff AALl ac ysgolion | 1.2.1 Drafftio'r arweiniad, yr egwyddorion a'r prosesau cyffredin i staff AALl ac ysgolion i'w gwblhau erbyn y Pasg 2010, a'r terfynol erbyn diwedd Mai 2010 | Cydweithredu | Grŵp Tasg a Gorffen<br><br>*Arbenigedd ar gael ar hyn o bryd yn y canlynol:*<br>• Cynghori, Cefnogi a Herio<br>• Grŵp y Penaethiaid | • Hwyluso<br>• Gweinyddu<br>• Costau cyflenwi | Ystyried egwyddorion presennol yr AALl a'r ymchwil ddiweddar berthnasol |

| Maes Gweithgaredd | Meini Prawf Llwyddiant | Lefel Continwwm Angenrheidiol | Cyfrifoldeb | Adnoddau | Sylwadau/Cwblhau |
|---|---|---|---|---|---|
| 1.3 Integreiddio yr arfer gorau a nodwyd mewn hunanwerthuso, a'r gwersi a ddysgwyd o'r rhaglen beilot FfEY | 1.3.1 Drafftio'r arweiniad, yr egwyddorion a'r prosesau cyffredin i staff AALl ac ysgolion i'w gwblhau erbyn y Pasg 2010, a'r terfynol erbyn diwedd Mai 2010 | Cydweithredu | Grŵp Tasg a Gorffen<br><br>*Arbenigedd ar gael ar hyn o bryd yn y canlynol:*<br>• Cynghori, Cefnogi a Herio<br>• Grŵp RHAGORI<br>• Grŵp Penaethiaid | • Hwyluso<br>• Gweinyddu<br>• Costau cyflenwi | Ystyried adroddiad gwerthuso FfEY a gwerthusiad RHAGORI<br>Cyfeirio at arfer gorau yn y ddogfen hunanwerthuso (gan gynnwys ALl/ astudiaethau achos gan e.e. Estyn, OFSTED, CCAY (NCSL)<br>Ystyried Adroddiad Blynyddol Estyn |
| 1.4 Sicrhau alinio â Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn | 1.4.1 Drafftio'r arweiniad, yr egwyddorion a'r prosesau cyffredin i staff AALl ac ysgolion i'w gwblhau erbyn y Pasg 2010, a'r terfynol erbyn diwedd Mai 2010 | Cydlynu | Grŵp Tasg a Gorffen<br><br>*Arbenigedd ar gael ar hyn o bryd yn y canlynol:*<br>• Cynghori, Cefnogi a Herio | • Hwyluso<br>• Gweinyddu | Cyfeirio at drefniadau ac arweiniad newydd Arolygiadau Estyn |
| 1.5 Sicrhau bod yr egwyddorion a'r prosesau cytunedig yn cael eu cymhwyso'n gyson | 1.5.1 Gweithdrefnau i hwyluso'r gwaith o nodi arfer da effeithiol i'w cytuno erbyn mis Mawrth 2010 a'u cymhwyso ym mhob ALl gyda phob cylch yn dechrau yn hydref 2010 | Cydlynu | Grŵp Tasg a Gorffen<br><br>*Arbenigedd ar gael ar hyn o bryd yn y canlynol:*<br>• Cynghori, Cefnogi a Herio<br>• Grŵp Penaethiaid | • Hwyluso<br>• Gweinyddu | Ystyried prosesau a gweithdrefnau cyfredol ALl unigol<br>Sicrhau Ansawdd i gael cysondeb |
| | 1.5.2 Arfer effeithiol a nodwyd yn cael ei ddefnyddio i gyfeirio adolygiad blynyddol o egwyddorion a gweithdrefnau ym mhob ALl gan ddechrau ym mis Mehefin 2010 | Cydweithredu | Grŵp Tasg a Gorffen<br><br>*Arbenigedd ar gael ar hyn o bryd yn y canlynol:*<br>• Cynghori, Cefnogi a Herio<br>• Grŵp Penaethiaid | | |
| | 1.5.3 Tystiolaeth o gymhwyso'r egwyddorion a'r gweithdrefnau cytunedig yn gyson ym mhob ALl drwy weithdrefnau monitro ac adolygu blynyddol i ddechrau yn hydref 2010 | Cydweithredu/ Integreiddio Llwyr | Grŵp Tasg a Gorffen<br><br>*Arbenigedd ar gael ar hyn o bryd yn y canlynol:*<br>• Cynghori, Cefnogi a Herio | • Hwyluso<br>• Gweinyddu | Ystyried adroddiad y FfEY peilot a gweithdrefnau monitro ALl unigol<br>Cyfeirio at Safonau Cenedlaethol ar gyfer Gweithwyr Proffesiynol Gwelliant Addysgol yng Nghymru |

| Maes Gweithgaredd | Meini Prawf Llwyddiant | Lefel Continwwm Angenrheidiol | Cyfrifoldeb | Adnoddau | Sylwadau/Cwblhau |
|---|---|---|---|---|---|
| 1.6 Darparu monitro effeithiol a her ar raddfa uchel | 1.6.1 Arfer effeithiol a nodwyd yn cael ei ddefnyddio i gyfeirio arfer y dyfodol ym mhob ALl ac wedi'i adlewyrchu yn yr holl fframweithiau gan ddechrau ym mis Mehefin 2010 | Cydweithredu | Grŵp Tasg a Gorffen<br><br>*Arbenigedd ar gael ar hyn o bryd yn y canlynol:*<br>Cynghori, Cefnogi a Herio | | Ystyried adroddiad y FfEY peilot a gweithdrefnau monitro ALl unigol<br>Cyfeirio at Safonau Cenedlaethol ar gyfer Gweithwyr Proffesiynol Gwelliant Addysgol yng Nghymru |
| 1.7 Sicrhau bod ysgolion sy'n achos pryder yn cael eu nodi'n gynnar | 1.7.1 Yr holl ysgolion sy'n achos pryder wedi'u nodi yn ystod tymor cyntaf y cylch adolygiadau blynyddol ym mhob ALl gan ddechrau yn hydref 2010 | Cydweithredu | Grŵp Tasg a Gorffen<br><br>*Arbenigedd ar gael ar hyn o bryd yn y canlynol:*<br>• Cynghori, Cefnogi a Herio | • Hwyluso<br>• Gweinyddu | |
| 1.8 Sicrhau cysondeb wrth ddarparu ymyriad a chefnogaeth effeithiol | 1.8.1 Yr holl ALl yn darparu cefnogaeth benodol i'r holl ysgolion mewn cyfrannedd gwrthdro i'w llwyddiant o fewn pob cylch gyda thystiolaeth mewn adroddiadau blynyddol gan ddechrau yn hydref 2010 | Cydweithredu | Grŵp Tasg a Gorffen<br><br>*Arbenigedd ar gael ar hyn o bryd yn y canlynol:*<br>• Cynghori, Cefnogi a Herio | • Hwyluso<br>• Gweinyddu | Cyfeirio at Safonau Cenedlaethol ar gyfer Gweithwyr Proffesiynol Gwelliant Addysgol yng Nghymru |
| 1.9 Hwyluso nodi arfer effeithiol mewn ALl ac ysgolion drwy ddeialog broffesiynol reolaidd | 1.9.1 Yr holl ALl yn sicrhau bod lledaenu arfer effeithiol yn rhan annatod o'r broses gwella ysgolion ac yn annatod yn y cynlluniau blynyddol sy'n dechrau yn hydref 2010 | Cydweithredu | Grŵp Tasg a Gorffen<br><br>*Arbenigedd ar gael ar hyn o bryd yn y canlynol:*<br>• Cynghori, Cefnogi a Herio<br>• Grŵp y Penaethiaid | • Hwyluso<br>• Gweinyddu<br>• Costau Cyflenwi | Cyfeirio at Safonau Cenedlaethol ar gyfer Gweithwyr Proffesiynol Gwelliant Addysgol yng Nghymru ac ymchwil gyfredol arall ar arfer effeithiol |

| **Maes Gweithgaredd** | **Meini Prawf Llwyddiant** | **Lefel Continwwm Angenrheidiol** | **Cyfrifoldeb** | **Adnoddau** | **Sylwadau/Cwblhau** |
|---|---|---|---|---|---|
| 1.10 Effeithio'n gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion. | 1.10.1 Safonau disgyblion a dangosyddion lles presennol ar gyfer swamwac wedi'u dadansoddi a'r meysydd i'w datblygu wedi'u nodi erbyn mis Ebrill 2010 | Cydweithredu | Grŵp Tasg a Gorffen<br><br>*Arbenigedd ar gael ar hyn o bryd yn y canlynol:*<br>• Cynghori, Cefnogi a Herio<br>• Y Grŵp Data<br>• Grŵp RHAGORI<br>• Grŵp Penaethiaid | • Hwyluso<br>• Gweinyddu<br>• Costau Cyflenwi | Defnyddio setiau data craidd, ystod o ddangosyddion lles a data cymharu swamwac mewn dadansoddiadau a phennu targedau |
| | 1.10.2 Targedau wedi'u pennu i alluogi gweithgareddau i gefnogi maes blaenoriaeth gwella ysgol er mwyn cynhyrchu effaith gadarnhaol erbyn mis Mehefin 2010 | Cydweithredu | Grŵp Tasg a Gorffen<br><br>*Arbenigedd ar gael ar hyn o bryd yn y canlynol:*<br>• Cynghori, Cefnogi a Herio<br>• Grŵp Penaethiaid | • Hwyluso<br>• Gweinyddu<br>• Costau Cyflenwi | |
| | 1.10.3 Cynigion ar gyfer monitro a gwerthuso’r effaith yn barhaus wedi'u cytuno erbyn mis Awst 2010 | Cydweithredu | Grŵp Tasg a Gorffen<br><br>*Arbenigedd ar gael ar hyn o bryd yn y canlynol:*<br>• Cynghori, Cefnogi a Herio<br>• Grŵp Penaethiaid | • Hwyluso<br>• Gweinyddu<br>• Costau Cyflenwi | Ystyried adroddiad gwerthuso FfEY a gwerthusiad RHAGORI |
| 1.11 Arwain at werth ychwanegol i waith pob ALl a chael effeithlonrwydd drwy waith cydweithredol | | | | • | |

## 2. Arweinyddiaeth Systemau

**Diben:**

**Galluogi newid systemau ynghyd â diwygio ar dair lefel ac sy'n ateb gofynion addysg yn yr 20fed ganrif**

**Bydd y broses hon yn:**
2.1 Datblygu dealltwriaeth a rennir o arweinyddiaeth systemau rhwng ysgolion, awdurdodau lleol a LlCC
2.2 Datblygu a rhoi ymagwedd ar waith i ddefnyddio arweinwyr systemau mewn ysgolion ac awdurdodau lleol i gefnogi datblygiad addysg effeithiol
2.3 Nodi sgiliau a galluoedd craidd arweinwyr systemau mewn ysgolion ac awdurdodau lleol
2.4 Sicrhau bod cyfleoedd datblygiad proffesiynol ar gael i arweinwyr systemau mewn ysgolion ac awdurdodau lleol
2.5 Hyrwyddo meddwl systemau a newid mewn ysgolion, awdurdodau lleol a LlCC mewn meysydd penodol cytunedig
2.6 Datblygu gweithio cydweithredol i gyfrannu at gynllunio lle(oedd) ysgol yn effeithiol a'r defnydd gorau o adnoddau cyfalaf.
2.7 Effeithio'n gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion.
2.8 Arwain at ychwanegu gwerth at waith pob ALl a chyflawni effeithlonrwydd drwy weithio ar y cyd

| Maes Gweithgaredd | Meini Prawf Llwyddiant | Lefel Continwwm | Cyfrifoldeb | Adnoddau angenrheidiol | Sylwadau/Cwblhau |
|---|---|---|---|---|---|
| 2.1 Datblygu dealltwriaeth a rennir o arweinyddiaeth systemau rhwng ysgolion, awdurdodau lleol a LlCC | 2.1.1 Dealltwriaeth a rennir o arweinyddiaeth systemau rhwng ysgolion, awdurdodau lleol a LlCC mewn tystiolaeth mewn papur cytunedig sy'n diffinio a disgrifio arweinyddiaeth systemau fel y mae'n berthnasol i amrywiaeth o ysgolion ac awdurdodau lleol erbyn mis Ebrill 2010 | Cydweithio | Grŵp Tasg a Gorffen<br><br>*Arbenigedd ar gael ar hyn o bryd yn y canlynol:*<br>• Y Grŵp Strategol | • Hwyluso<br>• Costau cyflenwi<br>• ymgynghoriaeth | Ystyried<br>Dogfennau FfEY peilot<br>Adroddiad gwerthuso ar FfEY peilot<br>Papur ICSEI<br>Ymchwil ehangach ar Arweinyddiaeth Systemau |

| Maes Gweithgaredd | Meini Prawf Llwyddiant | Lefel y Continwwm | Cyfrifoldeb | Adnoddau angenrheidiol | Sylwadau/Cwblhau |
|---|---|---|---|---|---|
| 2.2 Datblygu a rhoi ymagwedd ar waith i ddefnyddio arweinwyr systemau mewn ysgolion ac awdurdodau lleol i gefnogi datblygiad addysg effeithiol | 2.2.1 Datblygu a rhoi ymagwedd ar waith i ddefnyddio arweinwyr systemau mewn ysgolion ac awdurdodau lleol i gefnogi datblygiad addysg effeithiol wedi'i chwblhau erbyn mis Ebrill | Cydweithio / Integreiddio Llwyr | Grŵp Tasg a Gorffen<br><br>*Arbenigedd ar gael ar hyn o bryd yn y canlynol:*<br>• Y Grŵp Strategol<br>• Grŵp ymgynghori<br>• Y Grŵp Data | • Hwyluso<br>• Costau cyflenwi<br>• ymgynghoriaeth | Ystyried<br>Dogfennau FfEY peilot<br>Adroddiad gwerthuso ar FfEY peilot<br>Papur ICSEI<br>Adroddiadau ALl Estyn<br>Dogfennau cefnogi ac ymyrryd ALl<br>Ymchwil ehangach |
| | 2.2.2.Cymhwyso'n gyson y protocolau a'r gweithdrefnau a ddechreuwyd erbyn Medi 2 | Cydweithio / Integreiddio Llwyr | Grŵp Tasg a Gorffen<br><br>*Arbenigedd ar gael ar hyn o bryd yn y canlynol:*<br>• Y Grŵp Strategol<br>• Grŵp ymgynghori<br>• Y Grŵp Data | • Hwyluso<br>• Costau cyflenwi<br>• ymgynghoriaeth | Ystyried<br>Dogfennau FfEY peilot<br>Adroddiad gwerthuso ar FfEY peilot<br>Papur ICSEI<br>Adroddiadau ALl Estyn<br>Dogfennau cefnogi ac ymyrryd ALl<br>Ymchwil ehangach |
| 2.3 Nodi sgiliau a galluoedd craidd arweinwyr systemau mewn ysgolion ac awdurdodau lleol | 2.3.1 Sgiliau a galluoedd craidd yn sylfaen Datblygiad Proffesiynol ar gyfer arweinwyr systemau erbyn mis Ebrill 2010. | Cydweithio / Integreiddio Llwyr | *Grŵp Tasg a Gorffen*<br><br>*Arbenigedd ar gael ar hyn o bryd yn y canlynol:*<br>• Y Grŵp Strategol<br>• Grŵp ymgynghori | • Hwyluso<br>• Costau cyflenwi<br>• ymgynghoriaeth | Ystyried<br>Dogfennau FfEY peilot<br>Adroddiad gwerthuso ar FfEY peilot<br>Papur ICSEI<br>Safonau'r Bartneriaeth Gwella Addysg (EIP) |
| 2.4 Sicrhau bod cyfleoedd datblygiad proffesiynol ar gael i arweinwyr systemau mewn ysgolion ac awdurdodau lleol | 2.4.1 Awdit o'r anghenion yn bwydo i raglen swamwac erbyn mis Medi 2010. | Cydweithio/ Cydweithredu | *Grŵp Tasg a Gorffen*<br><br>*Arbenigedd ar gael ar hyn o bryd yn y canlynol:*<br>• Grŵp ymgynghori<br>• Grŵp Datblygu'r Gweithlu | • Hwyluso<br>• Costau cyflenwi<br>• Ymgynghoriaeth<br>• gweinyddu | Ystyried cyfleoedd mewn a rhwng ysgolion a'r ALl<br>Ystyried yr ymchwil sydd ar gael ar ddysgu effeithiol/rhwydweithio/ cymunedau dysgu proffesiynol a chyfeirio at y FfEy |

| Maes Gweithgaredd | Meini Prawf Llwyddiant | Lefel y Continwwm | Cyfrifoldeb | Adnoddau angenrheidiol | Sylwadau/Cwblhau |
|---|---|---|---|---|---|
| 2.5 Hyrwyddo meddwl systemau a newid mewn ysgolion, awdurdodau lleol a LlCC mewn meysydd penodol cytunedig | 2.5.1 Rhaglen beilot ar gyfer ymweliadau cyfnewid i ymarferwyr wedi'i datblygu a'i chytuno erbyn mis Awst 2010. | Cydweithio/ Cydweithredu | Grŵp Tasg a Gorffen<br><br>*Arbenigedd ar gael ar hyn o bryd yn y canlynol:*<br>• Y Grŵp Strategol | • Hwyluso<br>• Gweinyddu<br>• Costau cyflenwi<br>• Datblygu gwefan | Cyfeirio at yr ysgolion peilot yn 3.3.3 |
| 2.6 Datblygu gwaith cydweithredol i gyfrannu at gynllunio lle(oedd) ysgol a'r defnydd gorau o adnoddau cyfalaf. | 2.6.1 Cynigion rhanbarthol wedi'u datblygu a'u cytuno erbyn mis Mawrth 2010 | Cydweithio/ Cydlynu | Grŵp Tasg a Gorffen<br><br>*Arbenigedd ar gael ar hyn o bryd yn y canlynol:*<br>• Cynllunio Lleoedd Ysgol | • Hwyluso<br>• Costau cyflenwi | Cynnwys gofynion Ysgolion yr 21ain ganrif a Grant Adeiladu Galluedd Consortiwm |
| 2.7 Effeithio'n gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion. | 2.7.1 Safonau disgyblion a dangosyddion lles presennol ar gyfer swamwac wedi'u dadansoddi a'r meysydd i'w datblygu wedi'u nodi erbyn mis Ebrill 2010 | Cydweithio | Grŵp Tasg a Gorffen<br><br>*Arbenigedd ar gael ar hyn o bryd yn y canlynol:*<br>• Cynghori, Cefnogi a Herio<br>• Y Grŵp Data<br>• Grŵp RHAGORI<br>• Grŵp y Penaethiaid<br>• Cynllunio lleoedd ysgolion | • Hwyluso<br>• Gweinyddu<br>• Costau Cyflenwi | Defnyddio setiau data craidd, ystod o ddangosyddion lles a data cymharu swamwac mewn dadansoddiadau a phennu targedau |
| | 2.7.2 Targedau wedi'u pennu i alluogi gweithgareddau i gefnogi maes blaenoriaeth gwella ysgol er mwyn cynhyrchu effaith gadarnhaol erbyn mis Mehefin 2010 | Cydweithio | Grŵp Tasg a Gorffen<br><br>*Arbenigedd ar gael ar hyn o bryd yn y canlynol:*<br>• Cynghori, Cefnogi a Herio<br>• Grŵp y Penaethiaid | • Hwyluso<br>• Gweinyddu<br>• Costau Cyflenwi | |
| | 2.7.3 Cynigion ar gyfer monitro a gwerthuso parhaus yr effaith wedi'u cytuno erbyn mis Awst 2010 | Cydweithio | Grŵp Tasg a Gorffen<br>*Arbenigedd ar gael ar hyn o bryd yn y canlynol:*<br>• Cynghori, Cefnogi a Herio<br>• Grŵp y Penaethiaid | • Hwyluso<br>• Gweinyddu<br>• Costau Cyflenwi | Ystyried adroddiad gwerthuso FfEY a gwerthusiad RHAGORI |
| 2.8 Arwain at werth ychwanegol i waith pob ALl a chael effeithlonrwydd drwy waith cydweithredol | | | | • | |

## 3. Cefnogi Gwella ysgolion

**Diben:**

**Ehangu'r ystod o gefnogaeth a gwasanaethau cefnogi ehangach sydd ar gael i ysgolion ac awdurdodau lleol, i alluogi gweithlu ysgolion ac awdurdodau lleol i ddylanwadu'n well ar ddysgu a lles plant a phobl ifanc.**

**Bydd y broses hon yn:**

3.1 Nodi'r amrywiaeth o gefnogaeth a dysgu a fydd ar gael i ysgolion ac ALl
3.2 Darparu ar gyfer yr anghenion datblygiad proffesiynol a nodwyd ar gyfer staff ysgolion ac ALl a ddaeth i'r amlwg o'r blaenoriaethau ar gyfer gwaith consortiwm - Monitro, Herio ac Ymyrryd, Cefnogaeth Ehangach, Arweinyddiaeth Systemau a Chyfeiriad Strategol a Llywodraethu
3.3 Sicrhau cefnogaeth cymheiriaid a rhannu arfer proffesiynol drwy rwydweithiau a chymunedau dysgu proffesiynol
3.4 Datblygu sgiliau addysgeg gan gyfeirio at arfer myfyriol ac ymchwil
3.5 Hyrwyddo datblygiad gwasanaethau a rennir i gynyddu galluedd
3.6 Effeithio'n gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion
3.7 Arwain at ychwanegu gwerth at waith pob ALl a chyflawni effeithlonrwydd drwy waith cydweithredol

| **Maes Gweithgaredd** | **Meini Prawf Llwyddiant** | **Lefel y Continwwm** | **Cyfrifoldeb** | **Adnoddau angenrheidiol** | **Sylwadau/Cwblhau** |
|---|---|---|---|---|---|
| 3.1 Nodi ystod o gefnogaeth ar gyfer dysgu a fydd ar gael i ysgolion ac ALl drwy waith consortiwm | 3.1.1. Ystod o gefnogaeth ar gyfer dysgu a fydd ar gael i ysgolion ac ALl drwy waith consortiwm wedi'i nodi a'i gytuno erbyn mis Mawrth 2010<br>Awdit o anghenion yn bwydo i 3.2 erbyn mis Mawrth 2010 | Cydweithio | Grŵp Tasg a Gorffen<br><br>*Arbenigedd ar gael ar hyn o bryd yn y canlynol:*<br>• Grŵp Datblygu'r Gweithlu<br>• Grŵp CYG<br>• Grŵp Cyrsiau Byr | • Hwyluso<br>• Gwefan<br>• Datblygu cronfa ddata | Ystyried sgiliau ymarferwyr, anghenion unigolion ac anghenion ysgolion |

| **Maes Gweithgaredd** | **Meini Prawf Llwyddiant** | **Lefel y Continwwm** | **Cyfrifoldeb** | **Adnoddau angenrheidiol** | **Sylwadau/Cwblhau** |
|---|---|---|---|---|---|
| 3.2 Darparu ar gyfer anghenion datblygiad proffesiynol a nodwyd a ddaw i'r amlwg o'r awdit ac o ddatblygu'r blaenoriaethau ar gyfer gwaith consortiwm h.y. Monitro, Herio ac Ymyrryd, Cefnogaeth Ehangach, Arweinyddiaeth Systemau a Chyfeiriad Strategol a Llywodraethu | 3.2.1 Cynllun Gweithredu i ddarparu ar gyfer ar gyfer anghenion datblygiad proffesiynol a nodwyd (a ddaw i'r amlwg o'r awdit ac o ddatblygu'r blaenoriaethau ar gyfer gwaith consortiwm) ar gael ac wedi'i gymeradwyo erbyn mis Ebrill 2010 | Cydweithredu / Integreiddio Llwyr | Grŵp Tasg a Gorffen<br><br>*Arbenigedd ar gael ar hyn o bryd yn y canlynol:*<br>• Grŵp Datblygu'r Gweithlu<br>• Grŵp CYG<br>• Grŵp Cyrsiau Byr<br>• Grŵp Staff Cefnogi | • Hwyluso<br>• Costau cyflenwi | Ystyried yr effaith angenrheidiol ar amrywiaeth mewn ysgolion a rhwng ysgolion a'r ALI Ystyried sut i ychwanegu gwerth at y defnydd o'r adnoddau presennol. Cyfeirio at staff cefnogi ysgolion, arweinwyr canol, arweinwyr systemau, ANC, DPC, Rhaglen Sefydlu Proffesiynol i Benaethiaid (PHIP), Athrawon Siartredig, CALU etc. |
| 3.2 Darparu ar gyfer anghenion datblygiad proffesiynol a nodwyd a ddaw i'r amlwg o'r awdit ac o ddatblygu'r blaenoriaethau ar gyfer gwaith consortiwm h.y. Monitro, Herio ac Ymyrryd, Cefnogaeth Ehangach, Arweinyddiaeth Systemau a Chyfeiriad Strategol a Llywodraethu | 3.2.2 Gwasanaeth gwe CPD swamwac wedi ei ehangu i gynnwys rhwydweithiau a chyfleoedd cefnogaeth cymheiriaid erbyn mis Awst 2010 | Integreiddio Llwyr | Grwpiau Tasg a Gorffen (hwyrach y bydd angen grŵp T a G arweiniol ac is-grŵp o staff gweinyddol i'w roi ar waith)<br><br>*Arbenigedd ar gael ar hyn o bryd yn y canlynol:*<br>• Grŵp Datblygu'r Gweithlu<br>• Grŵp CYG<br>• Grŵp Cyrsiau Byr<br>• Grŵp gweinyddol cwrs byr | • Hwyluso<br>• Gwefan<br>• Datblygu cronfa ddata | |

| Maes Gweithgaredd | Meini Prawf Llwyddiant | Lefel y Continwwm | Cyfrifoldeb | Adnoddau angenrheidiol | Sylwadau/Cwblhau |
|---|---|---|---|---|---|
| 3.3 Sicrhau cefnogaeth cymheiriaid a rhannu arfer proffesiynol drwy rwydweithiau a chymunedau dysgu proffesiynol | 3.3.1 60% o ysgolion ar draws swamwac yn rhan o gymuned ddysgu rwydweithiol a/neu weithgareddau cymuned ddysgu broffesiynol erbyn mis Awst 2010 | Cydweithio / Cydweithredu | Grŵp Tasg a Gorffen | • Hwyluso<br>• Costau cyflenwi | Ystyried cyfleoedd mewn a rhwng ysgolion a'r ALI<br>Ystyried yr ymchwil sydd ar gael ar ddysgu effeithiol/cymunedau dysgu proffesiynol/rhwydweithiol a chyfeirio at y FfEY |
| | 3.3.2 Cyfeiriaduron ar gyfer arfer effeithiol rhwydweithiau/cymunedau dysgu proffesiynol Cyfleoedd cefnogaeth cymheiriaid ar gael ar-lein erbyn mis Awst 2010 | Integreiddio Llwyr | Grŵp Tasg a Gorffen<br><br>*Arbenigedd ar gael ar hyn o bryd yn y canlynol:*<br>• Grŵp Datblygu'r Gweithlu<br>• Grŵp CYG<br>• Grŵp Cyrsiau Byr<br>• Grŵp gweinyddol cwrs byr | • Hwyluso<br>• Gweinyddu<br>• Gwefan<br>• Datblygu cronfa ddata | |
| | 3.3.3 cynllun peilot ar gyfer ymweliadau cyfnewid i ymarferwyr wedi'i gwblhau a'i werthuso erbyn mis Ebrill 2010 | Integreiddio Llwyr | Grŵp Tasg a Gorffen | • Gweinyddu<br>• Costau cyflenwi<br>• Grant Galluedd Consortiwm | Cynnwys gofynion Grant Galluedd Consortiwm |
| | 3.3.4 Grwpiau rhwydweithiau ALl mewn meysydd arfer proffesiynol penodol yn cael eu cefnogi i rwydweithio a chydlynu o fis Ionawr 2010 | Rhwydweithio a Chydlynu | Grwpiau rhwydweithio ar gyfer:<br>• 14 – 19<br>• Pontio<br>• RHAGORI<br>• Y Cyfnod Sylfaen<br>• CYG<br>• YEC/Dysgu y Tu Allan i Oriau Ysgol<br>• Cwricwlwm TGCh<br>• Addysg Awyr Agored<br>• Cerddoriaeth | • Gweinyddu | |

| Maes Gweithgaredd | Meini Prawf Llwyddiant | Lefel y Continwwm | Cyfrifoldeb | Adnoddau angenrheidiol | Sylwadau/Cwblhau |
|---|---|---|---|---|---|
| 3.4 Datblygu sgiliau addysgeg gan gyfeirio at arfer myfyriol ac ymchwil | 3.4.1 yr holl gyfleoedd DPD drwy waith consortiwm i gynnwys elfen o arfer myfyriol erbyn Awst 2010 | Cydweithio | Grŵp Tasg a Gorffen | • Hwyluso<br>• Costau cyflenwi<br>• Mynediad electronig | |
| 3.5 Hyrwyddo datblygiad gwasanaethau proffesiynol a rennir i gynyddu galluedd | 3.5.1 Awdit o'r dewisiadau ar gyfer gwasanaethau a rennir wedi'i gwblhau a'i werthuso ac adroddiad ar y cyfleoedd a'r materion ynghylch datblygu gwasanaethau a rennir i gynyddu galluedd wedi'i gwblhau erbyn mis Mai 2010. | Cydweithio | Grŵp Tasg a Gorffen | • Hwyluso<br>• Costau cyflenwi | |
| | 3.5.2 Cynllun gweithredu ar gyfer datblygu gwasanaethau a rennir cytunedig wedi'i gwblhau erbyn mis Awst 2010 | Cydweithio | Grŵp Tasg a Gorffen | • Hwyluso<br>• Costau cyflenwi | |
| | 3.5.3 Gwasanaeth brocera'r consortiwm i'w ehangu i gynnwys darparwyr allanol o safon erbyn mis Awst 2010 | Integreiddio Llwyr | Grŵp Tasg a Gorffen | • Hwyluso<br>• Gweinyddu<br>• Gwefan<br>• Datblygu cronfa ddata | |

| Maes Gweithgaredd | Meini Prawf Llwyddiant | Lefel y Continwwm | Cyfrifoldeb | Adnoddau angenrheidiol | Sylwadau/Cwblhau |
|---|---|---|---|---|---|
| 3.6 Effeithio'n gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion | 3.6.1 Safonau disgyblion a dangosyddion lles presennol ar gyfer swamwac wedi'u dadansoddi a'r meysydd i'w datblygu wedi'u nodi erbyn mis Ebrill 2010 | Cydweithio | Grŵp Tasg a Gorffen | • Hwyluso<br>• Gweinyddu<br>• Dadansoddiadau ystadegol | Ystyried yr effaith angenrheidiol ar amrywiaeth mewn ysgolion a rhwng ysgolion a'r ALI. Defnyddio setiau data craidd, dangosyddion lles a data cymharu swamwac mewn dadansoddiadau ac wrth bennu targedau |
| | 3.6.2 Targedau wedi'u pennu i alluogi gweithgareddau i gefnogi maes blaenoriaeth gwella ysgol er mwyn cynhyrchu effaith gadarnhaol erbyn mis Mehefin 2010 | Cydweithio | Grŵp Tasg a Gorffen | • Hwyluso<br>• Costau cyflenwi | |
| | 3.6.3 Cynigion ar gyfer monitro a gwerthuso'r effaith yn barhaus wedi'u cytuno erbyn mis Awst 2010 | Cydweithio | Grŵp Tasg a Gorffen | • Hwyluso<br>• Costau cyflenwi | |
| 3.7 Arwain at werth ychwanegol i waith pob ALI a chael effeithlonrwydd drwy waith cydweithredol | | | | • | |

**4. Cyfeiriad Strategol a Llywodraethu**

**Diben:**

**Datblygu ymhellach y trefniadau llywodraethu a rheoli sy'n sicrhau bod gwaith consortiwm yn cynyddu galluedd awdurdodau lleol, yn ychwanegu gwerth drwy waith effeithlon ac effeithiol, ac yn cyfrannu at ganlyniadau gwell i blant a phobl ifanc**

**Bydd y broses hon yn:**

4.1 Darparu cyfeiriad strategol i waith consortiwm (yn y cyd-destun cenedlaethol a lleol), ac yn adolygu ac yn diwygio yn ôl y galw
4.2 Darparu isadeiledd a systemau cadarn i alluogi gwaith consortiwm effeithiol ac effeithlon
4.3 Sicrhau bod mentrau gwaith consortiwm yn destun craffu rheolaidd
4.4 Cael sicrwydd ansawdd effeithiol ar bob lefel
4.5 Bod trefniadau gwaith consortiwm yn alinio â'r themâu craidd ac elfennau allweddol y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion ac yn eu hymgorffori
4.6 Cael llais unedig ar drefniadau polisi cenedlaethol ac ymgynghoriadau allweddol
4.7 Darparu fforwm i ddatblygu cysylltiadau gweithio gwell gyda LlCC a phartneriaid allweddol eraill
4.8 Sefydlu, monitro a chyrraedd y targedau perfformiad allweddol ynghylch gwell galluedd, defnyddio adnoddau'n fwy effeithiol a safonau disgyblion gwell
4.9 Effeithio'n gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion
4.10 Arwain at ychwanegu gwerth at waith pob ALl a chyflawni effeithlonrwydd drwy weithio ar y cyd

| **Maes Gweithgaredd** | **Meini Prawf Llwyddiant** | **Lefel y Continwwm** | **Cyfrifoldeb** | **Adnoddau angenrheidiol** | **Sylwadau/Cwblhau** |
|---|---|---|---|---|---|
| 4.1 Darparu cyfeiriad strategol i waith consortiwm (yn y cyd-destun cenedlaethol a lleol), ac yn adolygu ac yn diwygio yn ôl y galw | 4.1.1 Adolygiad wedi'i gwblhau a chynllun newydd ar gael erbyn mis Medi 2010 | Integreiddio llwyr/ cydweithredu | Grŵp Lefel Uchel<br><br>*Arbenigedd ar gael ar hyn o bryd yn y canlynol:*<br>• Y Grŵp Strategol<br>• Tîm T a D | • Hwyluso | |
| 4.2 Darparu isadeiledd a systemau cadarn i alluogi gwaith consortiwm effeithiol ac effeithlon | 4.2.1 Isadeiledd cefnogi wedi'i adolygu a'i ddiwygio yn ôl y galw erbyn mis Mawrth 2010 | Integreiddio llwyr/ cydweithredu | Tîm T a D<br><br>*Arbenigedd ar gael ar hyn o bryd yn y canlynol:*<br>• Tîm T a D<br>• Tîm gweinyddol | • Hwyluso<br>• Gwefan | • gweler yr adroddiadau gwerthuso blaenorol |

| Maes Gweithgaredd | Meini Prawf Llwyddiant | Lefel y Continwwm | Cyfrifoldeb | Adnoddau angenrheidiol | Sylwadau/Cwblhau |
|---|---|---|---|---|---|
| 4.3 Sicrhau bod mentrau gwaith consortiwm yn destun craffu rheolaidd | 4.3.1 Prosesau craffu wedi'u hadolygu a'u diwygio yn ôl y galw ac yn gweithredu'n llawn erbyn mis Chwefror 2010 | Integreiddio llwyr/ cydweithredu | Tîm T a D<br><br>*Arbenigedd ar gael ar hyn o bryd yn y canlynol:*<br>• Tîm T a D<br>• Y Grŵp Strategol | • Hwyluso<br>• Datblygu cronfa ddata | |
| 4.4 Cael sicrwydd ansawdd effeithiol ar bob lefel | 4.4.1 Safonau ansawdd a ddymunir mewn gwaith consortiwm wedi'u diffinio erbyn mis Ebrill 2010 | Integreiddio llwyr/ cydweithredu | Tîm T a D<br><br>*Arbenigedd ar gael ar hyn o bryd yn y canlynol:*<br>• Tîm T a D<br>• Y Grŵp Strategol | • Hwyluso | |
| 4.5 Bod trefniadau gwaith consortiwm yn alinio â'r themâu craidd ac elfennau allweddol y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion ac yn eu hymgorffori | 4.5.1 Cynllun strategol wedi'i groesgyfeirio i'r FfEY erbyn mis Chwefror 2010. | Integreiddio llwyr/ cydweithredu | Tîm T a D<br><br>*Arbenigedd ar gael ar hyn o bryd yn y canlynol:*<br>• Y Grŵp Strategol<br>• Grŵp ymgynghori | • Hwyluso<br>• Gweinyddu<br>• Ymgynghoriaeth | |
| | 4.5.2 Sicrhau bod holl amserlenni cenedlaethol 2010 ar gyfer FfEY wedi'u cyflawni erbyn mis Awst 2010 | | | • | |
| 4.6 Cael llais unedig ar drefniadau polisi cenedlaethol ac ymgynghoriadau allweddol | 4.6.1 Ymateb y consortiwm i'r holl ymgynghoriadau pwysig yn 2010 | Integreiddio llwyr/ cydweithredu | Y Grŵp Strategol<br><br>*Arbenigedd ar gael ar hyn o bryd yn y canlynol:*<br>• Pob grŵp | • Hwyluso<br>• Gweinyddu | Cysylltu â'r strategaeth gyfathrebu |
| 4.7 Darparu fforwm i ddatblygu cysylltiadau gweithio gwell gyda LlCC a phartneriaid allweddol eraill | 4.7.1 Cyfraniad ymarferol LlCC a phartneriaid allweddol eraill mewn 3 maes datblygu o leiaf yn 2010 | Rhwydweithio a Chydlynu | Y Grŵp Strategol<br><br>*Arbenigedd ar gael ar hyn o bryd yn y canlynol:*<br>• Pob grŵp | • Hwyluso | |

| Maes Gweithgaredd | Meini Prawf Llwyddiant | Lefel y Continwwm | Cyfrifoldeb | Adnoddau angenrheidiol | Sylwadau/Cwblhau |
|---|---|---|---|---|---|
| 4.8 Sefydlu, monitro a chyrraedd y targedau perfformiad allweddol ynghylch gwell galluedd, defnyddio adnoddau'n fwy effeithiol a safonau gwell i ddisgyblion | 4.8.1 Targedau perfformiad allweddol ynghylch gwell galluedd, defnyddio adnoddau'n fwy effeithiol a safonau gwell i ddisgyblion wedi'u cytuno erbyn mis Mawrth 2010 | Integreiddio Llwyr | Tîm T a D<br>*Arbenigedd ar gael ar hyn o bryd yn y canlynol:*<br>• Pob grŵp | • Hwyluso<br>• Ymgynghoriaeth<br>• Datblygu Cronfa Ddata | |
| | 4.8.2 Targedau perfformiad allweddol ynghylch gwell galluedd, defnyddio adnoddau'n fwy effeithiol a safonau disgyblion gwell wedi'u cytuno erbyn mis Medi 2010 | Integreiddio Llwyr | Y Grŵp Strategol<br>*Arbenigedd ar gael ar hyn o bryd yn y canlynol:*<br>• Pob grŵp | • Hwyluso<br>• Costau cyflenwi | |
| 4.9 Effeithio'n gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion | 4.9.1 Safonau disgyblion a dangosyddion lles presennol ar gyfer swamwac wedi'u dadansoddi a'r meysydd i'w datblygu wedi'u nodi erbyn mis Ebrill 2010 | Cydweithredu | Grŵp Tasg a Gorffen<br>*Arbenigedd ar gael ar hyn o bryd yn y canlynol:*<br>• Pob grŵp<br>• Tîm T a D<br>• Tîm Gweinyddol<br>• Y Grŵp Strategol | • Hwyluso<br>• Gweinyddu<br>• Dadansoddiadau ystadegol | Ystyried yr effaith angenrheidiol ar amrywiaeth mewn ysgolion a rhwng ysgolion a'r ALI.<br>Defnyddio setiau data craidd, dangosyddion lles a data cymharu swamwac mewn dadansoddiadau ac wrth bennu targedau |
| | 4.9.2 Targedau wedi'u pennu i alluogi gweithgareddau i gefnogi maes blaenoriaeth gwella ysgol er mwyn cynhyrchu effaith gadarnhaol erbyn mis Mehefin 2010 | Cydweithredu | Grŵp Tasg a Gorffen<br>*Arbenigedd ar gael ar hyn o bryd yn y canlynol:*<br>• Pob grŵp<br>• Tîm T a D<br>• Tîm Gweinyddol<br>• Y Grŵp Strategol | • Hwyluso<br>• Costau cyflenwi | |
| | 4.9.3 Cynigion ar gyfer monitro a gwerthuso'r effaith yn barhaus wedi'u cytuno erbyn mis Awst 2010 | Cydweithredu | Grŵp Tasg a Gorffen<br>*Arbenigedd ar gael ar hyn o bryd yn y canlynol:*<br>• Pob grŵp<br>• Tîm T a D<br>• Tîm Gweinyddol<br>• Y Grŵp Strategol | • Hwyluso<br>• Costau cyflenwi | |

| **Maes Gweithgaredd** | **Meini Prawf Llwyddiant** | **Lefel y Continwwm** | **Cyfrifoldeb** | **Adnoddau angenrheidiol** | **Sylwadau/Cwblhau** |
|---|---|---|---|---|---|
| 4.10 Arwain at ychwanegu gwerth at waith pob ALI a chyflawni effeithlonrwydd drwy weithio ar y cyd | | | | • | |